# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 5ED RHAGFYR, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 25 Tachwedd 2022)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alan Jones Evans | Annwen Hughes |
| Gareth Tudor Jones | Linda Ann Jones |
| Edgar Wyn Owen | Gwynfor Owen |
| Rheinallt Puw | Arwyn Herald Roberts |
| Huw Rowlands | Elfed Williams |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gareth Williams | Angela Russell |
| Eryl Jones-Williams | Anwen J. Davies |
| John Brynmor Hughes | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

**4. COFNODION** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 24 Hydref 2022 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** 7 - 10

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:

a) 4ydd Hydref 2022

**6. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI - ER PENDERFYNIAD** 11 - 25

Cymeradwyo cynnig i godi uchafswm prisiau teithiau tacsis gan ystyried sylwadau yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i godi'r uchafswm prisiau

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**24-10-22**

**Presenoldeb: Cadeirydd Cyng Annwen Hughes**
**Is-gadeirydd Cyng. Elfed Williams**

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Eryl Jones-Williams, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Rheinallt Puw, Huw Rowlands, Angela Russell a Gareth Williams

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Adran Gyfreithiol), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd ) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 27 Mehefin 2022 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU**

Derbyniwyd er gwybodaeth gofnodion yr Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 27 Mehefin 2022 a 15 Gorffennaf 2022

**6. UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI**

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd oedd yn ymateb i gais gan y diwydiant yng Ngwynedd i newid yr uchaf bris.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 sydd yn gosod dyletswyddau rheoleiddio ar yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredu uchaf bris a all gael ei godi ar y cyhoedd wrth deithio mewn cerbydau hacni oddi fewn i'r Sir, mae'n ofynnol fod unrhyw gais am newid yn cael ei gyflwyno gan y diwydiant. Cadarnhawyd bod 5 cais diweddar wedi eu derbyn gan berchnogion cwmnïau tacsi i adolygu'r prisiau a bod y prisiau hyn ar gyfer cerbydau hacni yn unig ac nid cerbydau preifat. Ategwyd bod y Ddeddf yn caniatáu darparu tabl prisiau

ynghyd a'r gofyniad statudol i ddefnyddio cloc tacsi (taxi meter) fel mecanwaith i reoleiddio'r prisiau a diogelu buddiannau'r cyhoedd.

Nodwyd y bu cais llwyddiannus i gynyddu'r uchaf bris yn 2019 (wedi 9 mlynedd heb gynnydd) ac nad oedd newid wedi bod ers hynny. Ategwyd bod y cynnydd o £5 i £6 yn yr uchaf bris am y ddwy filltir gyntaf mewn taith tacsi yn 2019 yn un sylweddol ac yn adlewyrchu cyfartaledd costau chwyddiant dros y cyfnod.

Cyfeiriwyd at y ffactorau hynny sydd wedi effeithio busnesau tacsi yn ddiweddar (cyfnod clo dros gyfnod covid 19, cynnydd sylweddol yng nghostau tanwydd ynghyd a chynnydd sylweddol mewn chwyddiant) gan nodi bod rhain yn ffactorau sydd yn effeithio pawb. Nodwyd pwysigrwydd cloriannu effaith y sefyllfa bresennol gan sicrhau tegwch i'r diwydiant a'r defnyddwyr tacsi.

Cyfeiriwyd at gynnig ac argymhellion yr Awdurdod Trwyddedu i gynyddu rhai prisiau o gymharu a'r cyfraddau presennol gan adrodd y bydd cyfnod o ymgynghori ar y cynnig yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor. Ategwyd y bydd angen ail drafod y cynnig os bydd gwrthwynebiadau yn cael eu cyflwyno gan y diwydiant.

b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod y cynnig yn un hael
- Bod y cynnig am gostau glanhau proffesiynol yn gynnydd sylweddol
- Angen sicrhau nad yw'r pris yn ormod i'r rhai hynny sydd yn ddibynnol ar wasanaeth tacsi
- Bod rhai pobl fregus yn gaeth i'w tai oherwydd toriadau mewn gwasanaethau bws - angen sicrhau na fydd y rhain yn cael eu heffeithio gan y cynnydd am wasanaeth tacsi
- Pryder y gall codi am gost o gludo bagiau gael effaith ar siopau lleol – awgrym y bydd pobl yn troi at siopa ar lein
- Bod angen osgoi effaith negyddol ar ddefnyddwyr

c) Mewn ymateb i sylw bod rhai cwmnïau yn osgoi siwrneiau byr oherwydd gormod o drafferth a bod sefyllfa o'r fath yn achos o bryder i unigolion bregus, nododd y Pennaeth Cynorthwyol ei ddymuniad i unrhyw achos o'r fath gael ei gyfeirio i'r Awdurdod Trwyddedu.

Mewn ymateb i sylw bod prisiau teithiau yn amrywio yn sylweddol mewn rhai ardaloedd, awgrymwyd mai cwmnïau preifat oedd yn gwneud hyn ond y dylid cyflwyno unrhyw esiamplau i'r Awdurdod Trwyddedu fel bod modd edrych i mewn i'r mater. Ategodd y dylid adrodd ar unrhyw ddigwyddiad fel bod modd osgoi sefyllfa o roi pobl mewn risg.

Mewn ymateb i gynnydd sylweddol yng nghostau glanhau 'valet' proffesiynol (£45 i £120), nodwyd bod y costau hyn yn adlewyrchu gwir gost o lanhau car. Derbyniwyd y sylw bod angen ystyried pob sefyllfa a diffinio perthnasedd pob sefyllfa unigol, ond bod y ffi a argymhellwyd yn un rhesymol.

Cynigwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r cynnig

**PENDERFYNWYD:**

- **Cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchabris yn unol a'r argymhellion**
- **Cymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus am 14 diwrnod**
- **Derbyn yr angen i ail drafod os daw gwrthwynebiadau i'r cynnig cyn gweithredu**

## 7. ADOLYGIAD O FFIOEDD TRWYDDEDU SEFYDLIADAU RHYW

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo ffioedd ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau rhyw. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor hwn, ym mis Rhagfyr 2021 wedi mabwysiadu darpariaethau Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddu a Phlismona 2009 ("Deddf 2009") ar gyfer y sir gyfan.

Eglurwyd bod y ddarpariaeth yn caniatáu i'r Cyngor godi ffi am drwyddedau sefydliad rhyw sydd yn ddigonol i adennill costau yn unig. Ategwyd bod rhaid i'r ffioedd fod yn rhesymol ac yn gymesur â chost y prosesau trwyddedu, sy'n cynnwys gweinyddu, yn ogystal â chynnal arolygiadau cydymffurfio. Ni ellid defnyddio ffioedd i wneud elw na gweithredu fel rhwystr economaidd i atal rhai mathau o fusnesau rhag gweithredu yn yr ardal. Nodwyd bod disgwyl i bob Awdurdod Trwyddedu bennu lefel ffioedd yn unol a'r hyn sy'n briodol i sicrhau adennill costau; bod ffioedd pob awdurdod trwyddedu yn wahanol; ac na ddylid defnyddio ffioedd cymharol awdurdodau eraill fel sail pennu ffi.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod yr Adran Trwyddedu wedi ystyried gwir gostau yn hytrach nac amcan gostau neu gostau tybiedig ac nad oedd elfen o wneud elw i'r gost.

b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod angen sicrhau bod y costau yn cael eu hadennill
- Bod angen adolygu'r ffioedd yn flynyddol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a beth yw diffiniad siop rhyw, nododd y Swyddog Monitro bod siop rhyw yn cael ei ddiffinio fel sefydliad sydd yn cynnig 30% neu fwy o arwynebedd llawr y siop ar gyfer arddangos a gwerthu nwyddau / teganau rhywiol (tu hwnt i ddillad yn unig).

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo gosod lefel y ffioedd sy'n adlewyrchu gweinyddu ac asesu cydymffurfiaeth a phrosesu ceisiadau am drwyddedau sefydliadau rhyw**
- **Cymeradwyo adolygiad blynyddol o'r ffioedd hynny.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:15 a daeth i ben am 10:50

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 04-10-2022**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Linda Jones a Gwynfor Owen

**Swyddogion:** Sïon Huw (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd ag adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau a thystysgrif feddygol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Mewn ymateb i gyflwyniad y swyddog trwyddedu, oedd yn nodi'r angen i'r ymgeisydd ymhelaethu ar pam na fu iddo gydnabod trosedd yfed a gyrru ar ei ffurflen gais am drwydded, amlygodd y swyddog trwyddedu mai camgymeriad oedd y frawddeg yma yn yr adroddiad ac ymddiheurwyd am gamarwain yr is-bwyllgor.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau ar ei drwydded a'i amgylchiadau personol. Nododd bod y collfarnau yn rhai hanesyddol ac wedi digwydd mewn cyfnod anodd yn ei arddegau. Amlygodd bod y gollfarn olaf wedi digwydd 37 o flynyddoedd yn ôl ac ers y gollfarn honno yn 1985 ei fod wedi dilyn gyrfa ym myd gofal plant ac oedolion gydag anghenion dysgu.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Ffurflen feddygol yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Collfarn.1 : Ym Medi 1980, cafwyd yr ymgeisydd yn euog am ddwyn drwy ladrata o siop yn groes i'r Ddeddf Lladrata 1968a.1. Roedd yr ymgeisydd yn 15 oed pan ddigwyddodd y drosedd a derbyniodd ddirwy o £25.

Collfarn 2 : Ym mis Awst 1983 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o geisio lladrad o anheddau yn groes i'r Ddeddf Lladrata 1968 a.9 (1)(a). Roedd yr ymgeisydd yn 18 oed pan ddigwyddodd y drosedd a derbyniodd orchymyn prawf dwy flynedd.

Collfarn 3 : Ym mis Mawrth 1984 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o ddau achos o ladrata o siop yn groes i'r Ddeddf Lladrata 1968 a.1 ;Torri Gorchymyn Profiannaeth - Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol 1973 a.6. Roedd yr ymgeisydd yn 19 oed pan ddigwyddodd y troseddau a chafodd ei roi mewn canolfan gadw am 21 diwrnod.

Collfarn 4 : Ym mis Hydref 1984 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o dri achos o ladrata o siop yn groes i'r Ddeddf Lladrata 1968 a.1 ynghyd a meddu Cyffur Dosbarth A a reolir yn groes i Ddeddf Camddefnydd Cyffuriau 1971 a5.(2). Roedd yr ymgeisydd yn 19 oed pan ddigwyddodd y drosedd a cafodd ei roi mewn dalfa ieuenctid am chwe mis a fforffedu a gwaredu'r cyffuriau.

Collfarn 5 : Ym mis Tachwedd 1985 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o ddau achos o ladrata o siop yn groes i'r Ddeddf Lladrata 1968 a.1. Roedd yr ymgeisydd yn 20 oed pan ddigwyddodd y drosedd a derbyniodd orchymyn prawf am ddwy flynedd gydag amod i breswylio mewn hostel am flwyddyn.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, lladrata.

Mae paragraff 9.1 yn nodi y cymerir safbwynt difrifol o unrhyw drosedd yn ymwneud â chyffuriau gyda pharagraff 9.4 yn nodi bod cais lle mae gan yr ymgeisydd gollfarn unigol yn ymwneud â meddu cyffuriau yn cael ei wrthod fel arfer oni bai bod cyfnod o dair blynedd wedi mynd heibio.

Mae paragraff 16.1 o'r Polisi yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod cyfnod yr amser a nodir yn y Polisi lle dylid gwrthod ceisiadau oherwydd troseddau o'r fath wedi mynd heibio - roedd y gollfarn olaf wedi ei chyflwyno 37 mlynedd yn ôl (sydd ymhell tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), ac felly nid oedd yr un o'r rhagdybiaethau dros wrthod yn goroesi, ac felly nid oedd sail i wrthod y cais.

Ystyriwyd hefyd y 'patrwm' o aildroseddu o dan baragraff 16.1 sy'n nodi dylid gwrthod cais os nad oes cyfnod o 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn olaf. Er y canfuwyd bod patrwm amlwg o droseddau anonestrwydd (dwyn yn bennaf), bu 37 mlynedd ers y gollfarn ddiwethaf ac ni chafwyd unrhyw gollfarnau dilynol.

Ystyriwyd eglurhad yr ymgeisydd dros ei ymddygiad yn ei arddegau ac roedd yr Isbwyllgor yn ei longyfarch ar ei lwyddiant o drawsnewid ei fywyd.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd felly yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :00am a daeth i ben 10 :30am

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 5 Rhagfyr 2022 |
| TEITL: | YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI - ER PENDERFYNIAD |
| PWRPAS: | CYMERADWYO CYNNIG I GODI UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU TACSIS GAN YSTYRIED SYLWADAU YN DILYN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS I GODI'R UCHAFSWM PRISIAU |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ( Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gosod dyletswyddau rheoleiddio ar yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredu uchafbris a all gael ei godi ar y cyhoedd wrth deithio mewn cerbydau hacni oddi fewn i'r Sir . Mae'r ddeddf yn caniatáu darparu tabl prisiau, ac mae hyn ynghyd a'r gofyniad statudol i ddefnyddio cloc tacsi (taxi meter) yn caniatáu mecanwaith i reoleiddio'r prisiau a godir ac i ddiogelu buddiannau'r cyhoedd.

1.2 Mae'n ofynnol fod unrhyw gais am newid yr uchafbris a godir yn cael ei gyflwyno gan y diwydiant . Fe gofiwch o'r adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar yr 24 o Hydref 2022 (gweler atodiad) , fod 5 cais wedi ei dderbyn gan y diwydiant i adolygu'r uchafswm prisiau a ellir eu codi am deithiau mewn cerbyd hacni.

1.3 Nid yw'r uchafbris yn berthnasol i deithiau mewn cerbydau hurio preifat , a drefnir ymlaen llaw.

1.4 Fe gafwyd cais llwyddiannus i gynyddu'r uchafbris yn 2019 ar ôl 9 mlynedd o uchafrbris yn aros yr un fath , ac nid oes newid wedi bod ers hynny. Gweler atodiad 1 am dabl o'r uchafbrisiau presennol. Fe gynyddwyd yr uchafbris am y ddwy filltir gyntaf taith tacsi o £5 i £6 yn 2019; sydd yn gynnydd sylweddol oedd yn adlewyrch cyfartaledd costau chwyddiant dros y cyfnod. Roedd costau eraill fel costau tanwydd wedi aros yn weddol sefydlog dros yr un cyfnod.

## 2 FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR GOSTAU BUSNESAU TACSI

2.1 Mae llawer o ffactorau megis cynnydd mewn costau tannwydd, chwyddiant ,costau llog a chynnydd mewn costau byw yn gyffredinol wedi creu sefyllfa di-gynsail yn ddiweddar i bawb. Mae cwmniau tacis yn ei chael yn anodd iawn yn enwedig yn dod allan o gyfnod mor anodd i fusensau a gafwyd yn ystod cyfnodau clo y pandemig Covid

## 3. CYNNIG Y DIWYDIANT AR GYFER UCHAFBRIS NEWYDD AR GYFER TEITHIAU CERBYD HACNI

3.1 Mae llawer o gynghorau wedi bod yn derbyn cynigion pendant yn ddiweddar gan y diwydiant tacsi i adolygu a chynyddu'r uchafbris mewn amrywiol ffyrdd. Mae yna gyfradd uchafbris penodol ar gyfer elfennau gwahanol; gan gynnwys cyfradd am daith 1 milltir a chyfradd gyffredinol lle mae taith yn 2 filltir neu fwy. Fe welir o'r tabl isod yr uchafbris sydd yn cael ei weithredu ar gyfer teithiau mewn cerbydau hacni dros 6 sir y Gogledd, ar hyn o bryd , ac fe nodir os yw'r uchafbrisiau wedi bod yn destun adolygiad diweddar .

**Tabl – pris cyfatebol cyfredol am 2 filltir o daith**

| | Gwynedd cyfredol | Cyfartaledd cyfredol 6 sir | Môn | Conwy | Fflint | Dinbych | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £6.00 | **£5.97** | £5.80 | £6.60 | £5.80 | £6.00 | £5.60 |
| Blwyddyn adolygu | 2019 | | 2017 | 2022 Cynnydd | 2022 Aros yr un fath | 2022 Cynnydd | 2011 |

3.2 Fe wnaeth amryw o'r cwmnïau a gyflwynodd gynigion cychwynnol gais i godi'r uchafbris y filltir gyntaf o £3.60 i £4.00. Mae'r cynnig yma yn ddealladwy; gan fod costau cerbyd a'r gyrrwr yn uwch ar gyfer siwrnai fer .

3.3 Mae'r bobl sydd yn defnyddio tacsis yn ystod y dydd ar gyfer siwrnai fer yn fwy tebygol o fod yn methu defnyddio ffyrdd eraill o deithio , ac yn bobl sydd yn fwy tebygol o fod yn oedrannus neu yn fregus. Barn yr Awdurdod Trwyddedu yw bod cynyddu uchafbris ar gyfer siwrnai byrion yn ystod y dydd yn cael effaith negyddol ar y boblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod yn ddifreintiedig , ac felly yn cael eu heffeithio fwyaf gan yr argyfwng costau byw presennol.

3.4 Gyda phrisiau chwyddiant a chostau byw mor eithriadol o uchel ar hyn o bryd ; mae angen ystyried opsiynau amgen o godi uchafbris fel ein bod yn cloriannu'r effaith y sefyllfa bresennol ar bawb; gan geisio sicrhau tegwch i'r diwydiant tacsi; a hefyd tegwch i ddefnyddwyr tacsis .

3.5 Fe roddwyd cynigion i godi elfennau penodol o'r prisiau yn seiliedig ar rai o awgrymiadau a ddaeth gan y diwydiant sef -

- codi pris teithiau tacsi ar ôl hanner nos;
- costau cludo bagiau /cases ychwanegol
- Costau glanhau tacsi pan mae cwsmeriaid yn gwneud llanast
- Cyflwyno tariff uwch ar gyfer teithiau lle mae rhwng 5 a 8 teithiwr mewn bws mini oherwydd bod costau ychwanegol o ran rhedeg tacsi bws mini; a bod y rhain fel arfer yn deithiau 'dewisol'

Gweler yr atodiad i'r adroddiad hwn am fanylion llawn y cynigion a gyflwynwyd.

3.4 Mae'n bwysig nodi nad oes rhaid i gwmni tacsi godi'r uchafbris am deithiau mewn cerbyd hacni. Mae llawer o gwmnïau yn dewis peidio; ac yn codi prisiau sydd yn is ac yn unol â'r hyn a ystyrir i fod yn gyfradd cystadleuol.

4. **PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL AR Y 24ain o HYDREF 2022**

4.1 O ystyried y ffactorau oll sydd yn bwysig i'r cyd-destun economaidd presenol – fe benderfynodd yr aelodau y Pwyllgor hwn i dderbyn y cynnigion i godi prisiau er pwrpas ymgynghoriad cyhoeddus, yn unol a'r argymhelliad sef,

- Cadw cyfradd uchafbris taith un filltir a thaith dwy filltir a mwy'r un fath - gan fod y pris a godir ar hyn o bryd o gwmpas y cyfartaledd wrth gymharu gyda Chynghorau eraill y Gogledd, ac y byddai cynyddu'r cyfraddau sylfaenol ar gyfer teithiau byr yn anfanteisio y mwyaf anghenus yn y gymdeithas
- Cynyddu uchafbris cludo bagiau ychwanegol yng nghist car o 30c yr eitem i 50c yr eitem
- Cynyddu cost valet glanhau o £45 i £120 i adlewyrchu costau glanhau proffesiynol cyfredol, ac yr amser nad yw'r cerbyd ar gael i'w hurio.

- Cynyddu cost cyfradd hurio tacsi rhwng 00:00 a 07:00 o 50% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol i 60% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol o £4.50 i £4.80 y filltir.
- Creu 'tariff' newydd ar gyfer teithiau bws mini ar gyfer rhwng 5 ac 8 teithiwr - i £6.60 am siwrnai mwy na 2 filltir

**Tabl yn cymharu newidiadau arfaethedig gyda'r sefyllfa bresennol**

| Uchafbris perthnasol | Cyfraddau presennol | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | |
| lle mae'r daith yn llai na milltir | £3.60 | Dim newid |
| Lle mae'r daith yn fwy na milltir, am y filltir gyntaf | £3.00 | Dim newid |
| Creu 'tariff' ychwanegol ar gyfer teithiau mewn bws mini lle mae rhwng 5 ac 8 o deithwyr | £3.00 | £3.30 |
| Uchafbris cludo bagiau ychwanegol yng nghist y cerbyd | 30c | 50c |
| Uchafbris cost 'valet' glanhau proffesiynol | £45 | £120 |
| Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan | 50% yn ychwanegol ar y gyfradd sylfaennol £4.50 | 60% yn ychwaegol i'r cyfradd sylfaennol £4.80 |

## 5. CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD

5.1 Yn unol â threfniadau statudol ; fe ymgynghorwyd ar y cynnig uchod am 14 diwrnod mewn papur lleol; gyda'r bwriad fod yr uchafbris newydd yn weithredol o'r dyddiad bydd y rhybudd yn dod i ben. Fe yrrwyd gohebiaeth hefyd cyn i'r ymgynghoriad gychwyn at y diwydiant tacsis.

5.2 Fe ddaeth yr ymgynghoriad i ben ar y 17 o Dachwedd, ac fe dderbyniwyd 5 gwrthwynebiad gyda sylwadau gan gynrychiolaeth o'r diwydiant . Gweler copïau o'r sylwadau ddaeth i law yn yr atodiad i'r adroddiad.

5.3 Gan fod gwrthwynebiad i'r cynnig wedi dod i law yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad; mae'r cynnig wedi cael ei gyfeirio yn ôl atoch fel y gallwch roi ystyriaeth ofalus cyn dod i benderfyniad terfynol.

5.4 Roedd y sylwadau a sail gwrthwynebiad yn amrywio , ond yn gyffredinol – roedd gwrthwynebiad i'r canlynol –

- Gwrthwynebiad i greu 'tariff' gwahanol ar gyfer teithiau mewn bws mini lle mae rhwng 5 a c 8 teithiwr
- Fod costau trwydded a 'r cyfyngiadau ar yr uchafbris a ellir ei godi am daith mewn cerbyd hacni yn golygu fod gyrwyr tacsi yn gweithio am lai na'r isafswm cyflog cenedlaethol os ydynt yn dibynnu ar deithiau byr lleol i wneud bywoliaeth - heb godi'r uchafbris am y ddwy filltir gyntaf

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn ystyried y gwrthwynebiadau a ddaeth i law, ac yn gwneud pnderfyniad terfynol yn seiledig ar yr ystyriaethau hynny.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **24 HYDREF 2022** |
| **TEITL:** | **UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI** |
| **PWRPAS:** | **CYMERADWYO CYNNIG GAN Y DIWYDIANT I GODI'R UCHAFSWM PRISIAU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ( Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gosod dyletswyddau rheoleiddio ar yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredu uchafbris a all gael ei godi ar y cyhoedd wrth deithio mewn cerbydau hacni oddi fewn i'r Sir . Mae'r ddeddf yn caniatáu darparu tabl prisiau, ac mae hyn ynghyd a'r gofyniad statudol i ddefnyddio cloc tacsi (taxi meter) yn caniatáu mecanwaith i reoleiddio'r prisiau a godir ac i ddiogelu buddiannau'r cyhoedd.

1.2 Mae'n ofynnol fod unrhyw gais am newid yr uchafbris a godir yn cael ei gyflwyno gan y diwydiant . Fe dderbyniwyd 5 cais yn ddiweddar gan Mr Trevor Roberts , Mr Colin Owen Hughie John Jones, Gareth Evans a Siôn Edwards sydd berchnogion cwmnïau tacsi - i adolygu'r prisiau. Fe yrrwyd cynnig manwl gan Mr Trevor Roberts yn unig; ac roedd yn cyflwyno'r cynnig ar ran ei hun ac 10 o gwmnïau tacsis eraill. Gweler yr atodiad i'r adroddiad hwn am gopïau llawn o'r cynigion a'r ohebiaeth a dderbyniwyd gan y diwydiant .

1.3 Nid yw'r uchafbris yn berthnasol i deithiau mewn cerbydau hurio preifat , a drefnir ymlaen llaw.

1.4 Fe gafwyd cais llwyddiannus i gynyddu'r uchafbris yn 2019 ar ôl 9 mlynedd o uchafrbris yn aros yr un fath , ac nid oes newid wedi bod ers hynny. Gweler atodiad 1 am dabl o'r uchafbrisiau presennol. Fe gynyddwyd yr uchafbris am y ddwy filltir gyntaf taith tacsi o £5 i £6 yn 2019; sydd yn gynnydd sylweddol oedd yn adlewyrch cyfartaledd costau chwyddiant dros y cyfnod. Roedd costau eraill fel costau tanwydd wedi aros yn weddol sefydlog dros yr un cyfnod.

## 2 FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR GOSTAU BUSNESAU TACSI

2.1 Oherwydd yr effaith negyddol a gafodd Pandemig Covid a'r cyfnodau clo ar y diwydiant tacsi, fe gofiwch i'r Pwyllgor hwn yn 2021 bleidlesio i beidio cynyddu prisau trwyddedau tacsis.

2.2 Ond, fe fydd pawb yn ymwybodol ein bod wedi bod mewn sefyllfa ddigynsail hefo'r sefyllfa economaidd yn y wlad dros y 6 mis diwethaf. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yng nghostau tanwydd am amryw resymau geo-wleidyddol (megis rhyfel yn yr Wcráin a phwysau ar y farchnad tanwydd wrth dod allan o'r Pandemig ) Mae'r rhagolygon yn nodi cynnydd sylweddol arall ar y gorwel mewn costau nwy a thrydan fydd yn effeithio ar bawb.

2.3 Mae'r cynnydd mewn costau tanwydd a chostau bwyd sylfaenol wedi bod yn gyson drwy gydol y flwyddyn hon, gyda'r sefyllfa yn ei dro yn cael effaith bellgyrhaeddol ar lefelau chwyddiant , a gyraeddodd gyfradd o 10.1% yn mis Gorffennaf 2022, ac mae'n debyg bydd y cyfradd wedi codi eto erbyn dyddiad y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei drafod gan y Pwyllgor

2.4 Mae'r cynnydd mwyaf sylweddol mewn chwyddiant ers 1982 wedi arwain at Fanc Lloegr yn ymateb i geisio rheoli chwyddiant drwy gynyddu cyfraddau llog.

2.5 Mae costau yswiriant priodol ar gyfer cerbydau trwyddedig yn uchel, ac wrth gwrs mae costau blynyddol ynghlwm a thrwyddedu cerbyd tacsi, a chostau bob tair blynedd ynghlwm a thrwyddedu gyrwyr.

## 3. CYNNIG Y DIWYDIANT AR GYFER UCHAFBRIS NEWYDD AR GYFER TEITHIAU CERBYD HACNI

3.1 Mae llawer o gynghorau wedi bod yn derbyn cynigion pendant yn ddiweddar gan y diwydiant tacsi i adolygu a chynyddu'r uchafbris mewn amrywiol ffyrdd. Mae yna gyfradd uchafbris penodol ar gyfer elfennau gwahanol; gan gynnwys cyfradd am daith 1 milltir a chyfradd gyffredinol lle mae taith yn 2 filltir neu fwy. Fe welir o’r tabl isod yr uchafbris sydd yn cael ei weithredu ar gyfer teithiau mewn cerbydau hacni dros 6 sir y Gogledd, ar hyn o bryd , ac fe nodir os yw'r uchafbrisiau wedi bod yn destun adolygiad diweddar .

**Tabl – pris cyfatebol cyfredol am 2 filltir o daith**

| | **Gwynedd cyfredol** | **Cyfartaledd cyfredol 6 sir** | **Môn** | **Conwy** | **Fflint** | **Dinbych** | **Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £6.00 | **£5.97** | £5.80 | £6.60 | £5.80 | £6.00 | £5.60 |
| Blwyddyn adolygu | 2019 | | 2017 | 2022 Cynnydd | 2022 Aros yr un fath | 2022 Cynnydd | 2011 |

3.2 Mae amryw o’r cwmnïau sydd wedi cyflwyno cynnig i godi uchafbris yn cynnig cynyddu'r gyfradd am y filltir gyntaf o £3.60 i £4.00. Mae’r cynnig yma yn ddealladwy; gan fod costau cerbyd a’r gyrrwr yn uwch ar gyfer siwrnai byr .

3.3 Mae’r pobl sydd yn defnyddio tacsis yn ystod y dydd ar gyfer siwrnai byr yn fwy tebygol o fod yn methu defnyddio ffyrdd eraill o deithio , ac yn bobl sydd yn fwy tebygol o fod yn oedrannus neu yn fregus. Barn yr Awdurdod Trwyddedu yw bod cynyddu uchafbris ar gyfer siwrnai byrion yn ystod y dydd yn cael effaith negyddol ar y boblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod yn ddifreintiedig , ac felly yn cael eu heffeithio fwyaf gan yr argyfwng costau byw presennol.

3.4 Fe ddefnyddiwyd costau cyfraddau chwyddiant Banc Lloegr i gyfrifo'r gyfradd uchafbris yn 2019; gyda chyfartaledd cyfradd chwyddiant rhwng 2011 a 2019 wedi ei ychwanegu at uchafbris taith dwy filltir neu trosodd.

3.5 Mae un cwmni tacsi yn gwneud y pwynt fod rhaid i gwmni ymrwymo i dalu'r isafswm cyfradd cyflog ( minimum wage) i’w gyrwyr wrth dderbyn cytundeb Cludiant ysgolion gyda’r Cyngor; a bod hyn yn anodd o dan yr amgylchiadau presenol ; heb allu codi mwy am deithiau mewn tacsi.

3.6 Gyda phrisiau chwyddiant a chostau byw mor eithriadol o uchel ar hyn o bryd ; mae angen ystyried opsiynau amgen o godi uchafbris fel ein bod yn cloriannu'r effaith y sefyllfa bresennol ar bawb; gan geisio sicrhau tegwch i’r diwydiant tacsi; a hefyd tegwch i ddefnyddwyr tacsis .

3.7 Mae rhai sydd wedi cyflwyno cynigion o’r diwydiant hefyd yn awgrymu y dylid edrych yn ofalus ar yr uchafbrisiau mewn perthynas â’r materion canlynol -

- teithiau tacis ar ol hanner nos;

- costau cludo bagiau /cases ychwanegol
- Costau glanhau tacsi pan mae cwsmeriaid yn gwneud llanast
- Cyflwyno tariff uwch ar gyfer teithiau lle mae rhwng 5 a 8 teithiwr mewn bws mini oherwydd fod costau ychwanegol o ran rhedeg tacsi bws mini; ac fod rhain fel arfer yn deithiau 'dewisol'
- Cyflwyno cyfradd uwch am y filltir gyntaf a theithiau byr yn hwyr yn y nos.

Gweler yr atodiad i'r adroddiad hwn am fanylion llawn y cynigion a gyflwynwyd.

3.4 Mae'n bwysig nodi nad oes rhaid i gwmni tacsi godi'r uchafbris am deithiau mewn cerbyd hacni. Mae llawer o gwmnïau yn dewis peidio; ac yn codi prisiau sydd yn is ac yn unol â'r hyn a ystyrir i fod yn gyfradd cystadleuol.

4. **CYNNIG YR AWDURDOD TRWYDDEDU**

4.1 O ystyried y ffactorau oll sydd yn bwysig i'r cyd-destun economaidd presenol - cynigir fod y prisiau yn cael eu cynyddu fel a ganlyn -

- Cadw cyfradd uchafbris taith un filltir a thaith dwy filltir a mwy yr un fath – gan fod y pris a godir ar hyn o bryd o gwmpas y cyfartaledd wrth gymharu gyda Cynghorau eraill y Gogledd, ac y byddai cynyddu'r cyfraddau sylfaennol ar gyfer teithiau byr yn anfantesio y mwyaf anghenus yn y gymdeithas
- Cynyddu uchafbris cludo bagiau ychwanegol yng nghist car o 30c yr eitem i 50c yr eitem
- Cynyddu cost valet glanhau o £45 i £120 i adlewyrchu costau glanhau proffesiynol cyfredol, ac yr amser nad yw y cerbyd ar gael i'w hurio.
- Cynyddu cost cyfradd hurio tacsi rhwng 00:00 a 07:00 o 50% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol i 60% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol o £4.50 i £4.80 y filltir.
- Creu 'tariff' newydd ar gyfer teithiau bws mini ar gyfer rhwng 5 ac 8 teithiwr - i £6.60 am siwrnai mwy na 2 filltir

**Tabl yn cymharu newidiadau arfaethedig gyda'r sefyllfa bresennol**

| **Uchafbris perthnasol** | **Cyfraddau presennol** | **Argymhelliad** |
|---|---|---|
| | | |
| lle mae'r daith yn llai na milltir | £3.60 | Dim newid |
| Lle mae'r daith yn fwy na milltir, am y filltir gyntaf | £3.00 | Dim newid |
| Creu 'tariff' ychwanegol ar gyfer teithiau mewn bws mini lle mae rhwng 5 ac 8 o deithwyr | £3.00 | £3.30 |
| Uchafbris cludo bagiau ychwanegol yn cist y cerbyd | 30c | 50c |
| Uchafbris cost 'valet' glanhau proffesiynol | £45 | £120 |
| Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan | 50% yn ychwanegol ar y gyfradd sylfaennol £4.50 | 60% yn ychwaegol i'r cyfradd sylfaennol £4.80 |

5. **YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT**

4.1 Os fydd y Pwyllgor hwn yn derbyn yr argymhelliad; fe fyddwn yn ymgynghori ar y cynnig am 14 diwrnod mewn papur lleol; gyda'r bwriad fod yr uchafbris newydd yn weithredol o'r dyddiad bydd y rhybudd yn dod i ben.

4.2 Os oes gwrthwynebiad i'r cynnig yn dod i law yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad; fe fydd yr argymhelliad yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor hwn er mwyn i sail y

gwrthwynebiad dderbyn ystyriaeth; ac ni fydd yn dod yn weithredol hyd nes y ceir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor .

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchafbris yn unol â'r argymhellion; neu yn cynnig cymeradwyaeth ar gyfer opsiynau eraill o godi uchafbris, ar gyfer teithiau mewn cerbydau hacni yn y Sir.

Yn unol ag adran 65 o'r Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – mae Cyngor Gwynedd yn cyhoeddi y bwriad i amrywio prisiau cludo ar gyfer cerbydau hacni fel a ganlyn:

In accordance with Section 65 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 – Gwynedd Council hereby publish a proposed variation in hackney carriage fares as follows:

| | |
|---|---|
| **CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**<br><br>**PRISIAU CLUDO CERBYD HACNI/HACKNEY CARRIAGE FARE 2022**<br>yn weithredol trwy ardal y Cyngor o **17/11/22**<br>*in operation throughout the area of the Council as from the* **17/11/22** | |
| **Milltiroedd / Mileage** | **Cost** |
| Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir<br>*If the distance does not exceed one mile for the whole distance* | **£3.60c/p** |
| Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.00** |
| Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny<br>*For each subsequent one-tenth of a mile or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Amser Disgwyl / Waiting Time**<br><br>Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny<br>*For each period of 1 minute or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Milltiroedd - bws mini sy'n cario 5 i 8 teithiwr**<br>**Mileage – Minibus carrying 5 to 8 passengers**<br><br>Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.30** |
| **Taliadau Ychwanegol / Extra Charges** | |
| 1. Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan<br>*For hirings between midnight and 7:00a.m. on any day or at any time on Bank Holidays except Christmas Day and New Year's Day* | **60% o'r cyfradd dal uchod**<br><br>***60% of the above rates*** |
| 2. Dydd Nadolig a Dydd Calan<br>*Christmas Day and New Year's Day* | **100% o'r cyfradd dal uchod**<br>***100% of the above rates*** |
| 3. Am bob cês a bag yn ychwanegol or un cês a gludir to allan i'r caban teithwyr<br>*For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment of the carriage* | **£0.50c/p** |
| 4. Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith<br>*For each person in excess of one of the whole journey* | **£0.40c/p** |
| 5. Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod<br>*Carriage of animals, i.e. Dogs and Cats* | **£1.20c/p** |
| **Nodir: Fod dim tal i'w godi am gludo Ci Tywys**<br>**Note: No Charge shall be made for the carriage of Guide Dogs** | **£0** |
| 6. Baeuddu'r cerbyd<br>Soiling the vehicle | **£120** |
| Cyngor Gwynedd Council<br>Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices<br>Stryd y Jêl/Shirehall Street<br>Caernarfon<br>Gwynedd LL55 1SH | Dafydd Wyn Williams<br>Pennaeth Adran Amgylchedd/Head of Environment Department<br>Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd/Public Protection Services |

Unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad i'w wneud yn ysgrifenedig i Gyngor Gwynedd drwy e bost at trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru erbyn **17/11/2022** (14 diwrnod ar ol cyhoeddiad ) . Mae copi o'r rhybudd ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a gwefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru.

Any objections to the proposal must be made in writing to Gwynedd Council by e-mail to Licensing@gwynedd.llyw.cymru by the **17/11/2022** (14 days after publication). A copy of the notice is available at the Council Offices and the Council website for inspection www.gwynedd.llyw.cymru.

| **CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**<br><br>**PRISIAU CLUDO CERBYD HACNI/HACKNEY CARRIAGE FARE**<br>yn weithredol trwy ardal y Cyngor o **9/9/2019**<br>*in operation throughout the area of the Council as from* **9/9/2019** | |
|---|---|
| **Milltiroedd / Mileage** | **Cost** |
| Oni fydd y pellter cyfan yn fwy nag un filltir<br>*If the distance does not exceed one mile for the whole distance* | **£3.60c/p** |
| Os yw'r pellter yn fwy nag un filltir; am y filltir cyntaf<br>*If the distance exceeds one mile; for the first mile* | **£3.00** |
| Am bob degfed rhan o filltir wedyn neu ran o hynny<br>*For each subsequent one-tenth of a mile or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Amser Disgwyl / Waiting Time** | |
| Am bob cyfnod o 1 munud neu ran o hynny<br>*For each period of 1 minute or uncompleted part thereof* | **£0.30c/p** |
| **Taliadau Ychwanegol / Extra Charges** | |
| 1. Am logi'r cerbyd rhwng hanner nos a 7:00y.b. unrhyw ddydd neu ar unrhyw amser ar Ŵyl y Banc, heblaw am Ddydd Nadolig a Dydd Calan<br>*For hirings between midnight and 7:00a.m. on any day or at any time on Bank Holidays except Christmas Day and New Year's Day* | **50% o'r cyfradd dal uchod**<br><br>***50% of the above rates*** |
| 2. Dydd Nadolig a Dydd Calan<br>*Christmas Day and New Year's Day* | **100% o'r cyfradd dal uchod**<br>***100% of the above rates*** |
| 3. Am bob cês a bag yn ychwanegol or un cês a gludir to allan i'r caban teithwyr<br>*For each article of luggage in excess of one case conveyed outside the passenger compartment of the carriage* | **£0.30c/p** |
| 4. Am bob person yn fwy nag un, am y cyfan o'r daith<br>*For each person in excess of one of the whole journey* | **£0.40c/p** |
| 5. Am gludo anifeiliaid, h.y. Cwn a Cathod<br>*Carriage of animals, i.e. Dogs and Cats* | **£1.20c/p** |
| **Nodir: Fod dim tal i'w godi am gludo Ci Tywys**<br>**Note: No Charge shall be made for the carriage of Guide Dogs** | **£0** |
| 6. Baeuddu'r cerbyd<br>Soiling the vehicle | **£45** |

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd Council<br>Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices<br>Stryd y Jêl/Shirehall Street<br>Caernarfon<br>Gwynedd LL55 1SH | Dafydd Wyn Williams<br>Pennaeth Adran Amgylchedd/Head of Environment Department<br>Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd/Public Protection Services |

**Oddi wrth:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Anfonwyd:** Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2022 11:42
**At:** Gwenan Mai Roberts (AMG) <gwenanmairoberts@gwynedd.llyw.cymru>; Robert Arthur Taylor (AMG) <robertarthurtaylor@gwynedd.llyw.cymru>; Tomos Wyn Jones (AMG) <TomosWynJones@gwynedd.llyw.cymru>
**Pwnc:** FW: Ymgynghoriad Prisiau Tacsi 2022 Taxi Prices Consultation

**From:** Trev's Taxi <
**Sent:** 15 November 2022 11:34
**To:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Subject:** Ymgynghoriad Prisiau Tacsi 2022 Taxi Prices Consultation

Good Morning,

I write to express that **I do not agree** with your proposal for the rise in the taxi fares.

The truth is there is no rise - the minimum fare during the day still remains at £3.60.

This is a kick in the teeth to all Gwynedd taxi drivers who have suffered with minimal work during COVID-19 and continued to work on the front line putting their lives at risk during the pandemic.

The cost-of-living crisis is getting worse and worse each passing month. The current inflation level is above 10%. There are talks this week that the minimum wage will increase by around 10% to £10.40 per hour but your proposal does not take this into consideration. There will also be an increase to universal credit payments and pension payments yet Gwynedd taxi drivers are expected to work for less than minimum wage.

We also need to feed our families; many drivers are already looking for other work and are ready to leave the industry. This will have a detrimental effect on the number of drivers available to perform the daily school contracts carrying the county's vulnerable children to and from school. It will also have an effect on people trying to get home after a night out.

It is the responsibility and duty of Gwynedd Council to ensure that we are not pushed into poverty and all drivers are able to make at least the minimum wage.
When tendering on school contracts with Gwynedd Council we must agree to the ethical employment law. This means that all drivers and passenger supervisors performing the work are paid at least the minimum wage. When the cost-of-living crisis started and the cost of fuel increased quickly, Gwynedd Council Education department awarded a 20% increase to all existing contracts in order for ethical employment to be maintained.

Can someone who makes the decisions on how much the taxi fares are explain to me and other taxi drivers in Gwynedd how drivers are meant to make minimum wage after vehicle running costs?

I will give you a breakdown of the current rate.

| | |
|---|---|
| Minimum Fare | £3.60 |
| Less VAT | -£0.60 |
| | £3.00 |
| Vehicle running costs per mile £0.45. Less 1 mile paid and 1 mile returning to the rank | - £0.90 |
| Balance | £2.10 |
| Balance of fare after costs | £1.05 each between the driver and the taxi company. |

In order for a driver to make the new minimum wage of £10.40 per hour the driver would need to make 10 short journeys within the hour. This would be a new customer every 6 minutes for every hour they work. It is not possible to make 10 short journeys every hour. This will be made even more difficult next year when the speed limits are reduced to 20 miles per hour in built up areas.

I propose the minimum fare is increased to £4.00.

We had to wait 8 years for the last rate increase in Gwynedd, please do not make us wait any longer.

Trevor Roberts
Trev's Taxis Ltd
Mobile [redacted]

**Oddi wrth:** Trefor Pritchard [redacted]
**Anfonwyd:** Dydd Llun, 31 Hydref 2022 12:30
**At:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Pwnc:** Objection to the new tariff fees

Why is there a different charge for minibuses of 5 to 8 persons?
1: The operators have chosen to use minibuses, as they can convey more passengers. Which they can charge extra person, as with cars.
2: Can operators of mpv/6 seaters charge more for their vehicles, as like minibuses.
3: What is there to prevent an operator of those vehicles, charging the new rate. When they have 4 or less passengers?
This system is open to abuse, despite potential claims that it won't be. Those operators who are requesting an increase for those vehicles, will still do the " Llanberis to Pen y Pass" type run for £20 or so, as it is claimed they do now. Or even uncut other operators to get a fare.
It was agreed back in 2010(i think) that, the only way to get minibus was for it to be 3years or younger for first registering as a taxi. I have not seen anything in statue stating otherwise, superseding this requirement.
Some were given plates because they claimed, that there NO TAXIS OPERATING IN THEIR AREA, ESPECIALLY LATE NIGHT. ie, Groeslon, Nefyn, Llanrug and the like. But as soon as they got their vehicles, they were then operating out of the main towns, and not the place they requested for.
The councillors claimed in the press, that they were unaware of any cherry picking of fares. But this has been reported many times to licencing, and requested that the Inspectors carry out spot checks/stingers. Maybe the councillors could try the taxis, to learn how they operator. As long as the driver does not know the "Stinger person", then they will be treated as a member of the public.
The whole business is rife with wrong doers, who go about completely unchecked.
Trefor Pritchard

**Oddi wrth:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Anfonwyd:** Dydd Gwener, 11 Tachwedd 2022 10:53
**At:** Robert Arthur Taylor (AMG) <robertarthurtaylor@gwynedd.llyw.cymru>; Gwenan Mai Roberts (AMG) <gwenanmairoberts@gwynedd.llyw.cymru>; Tomos Wyn Jones (AMG) <TomosWynJones@gwynedd.llyw.cymru>
**Pwnc:** FW: Objection
**Pwysigrwydd/Importance:** Uchel

**From:** Ken Evans >
**Sent:** 11 November 2022 10:52
**To:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Subject:** Objection

To whom it may concern;

I object to the new taxi prices as cars should have the same increase in price as a mini bus as the fuel price increase effects us all.
The starting price should go up from £3.60 to £4 again due to fuel cost and cost of living gone up ( tyres, maintenance cost etc)

Kind regards

Ken Evans

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** Dydd Llun, 31 Hydref 2022 14:40
**At:** Gwarchod y Cyhoedd <MA2013@gwynedd.llyw.cymru>
**Pwnc:** Re: Ymgynghoriad Prisiau Tacsi 2022 Taxi Prices Consultation

There should not be a different tariff on an eight seater vehicle for carrying more people than 5 or more they can already charge 40 pence per head most vehicle of this size are used for school contracts and booking witch they already charge more for or start on tariff 2 before 12 o'clock midnight they should stay as they are .

**Oddi wrth:** Chris O'Neal [redacted]
**Anfonwyd:** Dydd Llun, 31 Hydref 2022 12:32
**At:** Trwyddedu <Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru>
**Pwnc:** Objection to proposal

Dear Licensing Section.

We as operators of approx 30 vehicles in your county wish to oppose the new proposal.

We firmly believe these proposed changes have been considered with no consultation with the trade or the service users and do not show a reflection of what the trade wants or needs.

May I point out that increasing the nightly rate to 60% will force more drivers to shift from day working to night working and currently the need for taxi services in the day time is great especially in and around the peak times etc.

What would be good is a proper consultation with the trade and whilst you're at it consideration should be given to making it compulsory that all vehicles take card payments.

Regards
Chris

The Premier Group North Wales